## SEFYDLIADC Y MERCHED DOLWYDDELAN

### Cyfarfodydd y Gwanwyn

**Mawrth 1af** – Trip Dydd Gŵyl Dewi
**Mawrth 7fed** – Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol
**Ebrill 4ydd** – Ymweliad gan Sefydliad Achub Mynydd Dyffryn Ogwen
**Mai 9fed** - Actio a Drama : siaradwr Cathie Griffin

Os hoffech ymuno â’n grŵp cyfeillgar a chroesawgar, rydym ni’n cyfarfod ar ddydd Gwener cyntaf y mis am 7:00yh.

Cysylltwch gydag Alison 07534 284188 am fwy o wybodaeth.

## GRŴP CREFFTAU DYDD LLUN

Rydym ni’n cyfarfod bob dydd Llun o 10:00yb tan 1:00yp
(rydym bellach wedi ychwanegu awr ychwanegol)



£1 y person Croeso i bawb

Dewch i wneud crefftau gyda ffrindiau o’r un meddylfryd a rhannu syniadau a phrofiadau.

Mae gennym bellach beiriant gwnïo cymunedol i unrhyw un ei ddefnyddio i wneud gwaith atgyweirio, newidiadau, gwnïo prosiect ayb.

## CLWB CINIO DYDD GWENER

Dewch draw i ymuno â’r clwb cinio dydd Gwener, mae’n lle braf i gwrdd a sgwrsio.

Bob dydd Gwener yn y Pafiliwn o 12:00yp (er cewch gyrraedd unrhyw bryd) tan tua 2:00yp, neu bryd bynnag byddwn ni wedi gorffen sgwrsio!

Ydych chi’n newydd i’r pentref ac eisiau cwrdd â phobl leol? A fyddech chi’n hoffi gwneud mwy o ffrindiau?

Gall fod deg ohonom ni yno, neu ugain, neu fwy - pwy a ŵyr! Ond mae bob tro yn gyfeillgar, croesawgar a chefnogol. Mae croeso i bawb o unrhyw oed gan mai rhif yn unig ydy oedran yma yn Nolwyddelan.

Dewch â’ch brechdanau a’ch diodydd eich hunain
(mae tegell a micro-don ar gael).

Bydd raffl yno - £1 y tocyn – lle bydd pawb gan amlaf yn ennill gwobr 😊